# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 2**

Y DRETH A GWAREDIADAU TRETHADWY

**PENNOD 2**

GWAREDIADAU TRETHADWY

**6 Gwaredu deunydd fel gwastraff**

(1) Gwaredir deunydd fel gwastraff os yw’r person sy’n gyfrifol am y gwarediad yn bwriadu bwrw’r deunydd o’r neilltu.

(2) Gellir dod i’r casgliad bod bwriad i fwrw deunydd o’r neilltu ar sail amgylchiadau ei waredu, ac yn benodol ar sail y ffaith (os digwydd hynny) bod y deunydd wedi ei ddodi mewn man gwarediadau tirlenwi.

(3) Nid yw’r canlynol i’w trin fel pe baent yn anghyson â bwriad i fwrw deunydd o’r neilltu—

(a) gwneud defnydd dros dro o’r deunydd, neu ddefnydd ohono sy’n atodol i’w waredu drwy dirlenwi;

(b) cael budd o’r deunydd neu o unrhyw beth a allyrrir ganddo (er enghraifft, defnyddio nwy a gynhyrchir wrth i’r deunydd bydru i gynhyrchu trydan).

(4) Caiff rheoliadau addasu ystyr gwaredu deunydd fel gwastraff (gan gynnwys drwy ddiwygio’r adran hon neu unrhyw ddeddfiad arall sy’n ymwneud â’r dreth).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 6. (See end of Document for details)*

**I2** A. 6 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 6.